# Awdurdod Parc Cenedlaethol

## 15 Rhagfyr 2021

Yn Bresennol: Cynghorydd P Harries (Cadeirydd)
Cynghorydd P Baker BEM, Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd K Doolin, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs J James, Mr G Jones, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens a'r Cynghorydd A Wilcox.

[Ymunodd y Cynghorydd M James â'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ar y Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cofnod 8); ymunodd y Cynghorydd M Williams â'r cyfarfod yn ystod y cyflwyniad gan Croeso Sir Benfro (Cofnod 14) ar ôl i'w chartref gael toriad yn y cyflenwad trydan.]

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 11.30am; 11.40am –1.35pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd M Evans, Mrs S Hoss, Dr R Plummer a'r Cynghorydd S Yelland.

**2. Datgan Buddiannau**

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 3$^{ydd}$ o Dachwedd 2021 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**Penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 3$^{ydd}$ o Dachwedd 2021.

**4. Materion yn codi**

Cyfle i Blannu Coed - Pen-blwydd Platinwm - 70 mlynedd ers y Dynodi yn Barc Cenedlaethol (Cofnod 7)

Tynnodd un Aelod sylw at y ffaith bod y cofnodion yn cyfeirio at 'gynhesu byd-eang' ym mharagraff 2 ac mai'r derminoleg arferol oedd mynd i'r afael â'r 'newid yn yr hinsawdd'. Roedd y Prif Weithredwr yn cydnabod bod mymryn o wahaniaeth rhwng y ddau derm, ac er cysondeb byddai'r term mwy cyffredinol 'newid hinsawdd' yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol, oni bai y cyfeirir at gynhesu byd-eang yn benodol.

**Nodwyd.**

**5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dechreuodd y Cadeirydd drwy atgoffa'r Aelodau am y newid yn y ffordd yr oeddent yn derbyn eu negeseuon e-bost, a gofyn iddynt fewngofnodi i'r

system newydd. Roedd swyddogion ar gael i helpu petaent yn cael unrhyw broblemau.

Roedd y Cadeirydd yn falch o gyhoeddi ei fod wedi cael yr anrhydedd o gael ei ethol yn ddiweddar yn Gadeirydd Fforwm Cadeiryddion Parciau Cenedlaethol y DU am y flwyddyn i ddod. Roedd hefyd yn falch iawn o ddweud bod yr Awdurdod wedi derbyn siarter lefel uwch Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau, a diolchodd yn arbennig i Gadeirydd y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau, y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd, a'r Cynorthwyydd Gwasanaethau Democrataidd am eu gwaith caled i lwyddo i gyflawni hyn. Ychwanegodd eraill eu llongyfarchiadau a mynegi eu balchder o fod yn Aelodau o Awdurdod sy'n cefnogi ei Aelodau. Gofynnwyd am i'r wobr gael ei chyhoeddi i ddangos y safon ragorol y llwyddwyd i'w chyrraedd.

Gan droi at ddigwyddiadau, dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu gwasanaeth Diwrnod y Cofio yn Nhrefdraeth ac wedi gosod torch ar ran yr Awdurdod. Roedd hefyd wedi mynychu sawl cyfarfod a seminar rhithiol - ynglŷn â gwaith cloddio yng Nghapel St Padrig yn y Traeth Mawr, Rheoli'r Traethlin, sgwrs gan TIAA ar dwyll cyllid, cyfarfod ynghylch ffosffadau a drefnwyd gan Janet Finch-Saunders AS, gweminar ar ynni morol, yn ogystal â sawl sgwrs yn ystod wythnos COP Cymru. Yng nghwmni'r Prif Weithredwr roedd wedi mynychu sgwrs gan Blue Marine ynghylch Parciau Cenedlaethol Morol. Fel Cadeirydd roedd wedi mynychu cyfarfodydd Fforwm Gwledig a Chyngor Partneriaeth y WLGA, Parciau Cenedlaethol Cymru ac, ynghyd â Chadeiryddion a Phrif Weithredwyr eraill Cymru, wedi cyfarfod â'r Gweinidog Julie James AS. Roedd wedi methu â mynychu cyfarfod o'r Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol, ond diolchodd i Dr M Havard am fynychu yn ei le. Roedd hefyd wedi mynychu Pwyllgorau Adnoddau Dynol ac Adolygu Gweithredol yr Awdurdod, Gweithdy ar Risgiau, a phanel y WLGA ar asesu ar gyfer y Siarter Uwch ar Gefnogi a Datblygu Aelodau. Daeth y Cadeirydd â'i adroddiad i ben drwy atgoffa'r Aelodau y byddai'r Awdurdod yn noddi'r Nofio yn Ninbych-y-pysgod ar Ŵyl San Steffan, oedd yn dal i fwriadu cael ei gynnal ar y pryd, ac fel Cadeirydd, ef fyddai'n tanio'r gwn i ddechrau'r nofio. Dymunodd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r holl staff a'r Aelodau.

**Nodwyd.**

**6. Adroddiadau cyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau i'w hystyried/er gwybodaeth:

(i) Y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2021;
(ii) Y Pwyllgor Ieuenctid a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2021; a'r

(iii) Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2021.

**Penderfynwyd** mabwysiadu/derbyn cofnodion y Pwyllgorau a enwir uchod.

**7. Amcanion Llesiant Diwygiedig Drafft**

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod, fis Gorffennaf 2021, wedi cymeradwyo ei strategaeth lefel uchel newydd, gan glustnodi pedwar maes blaenoriaeth ar gyfer y cyfnod 2022-26:

- Cadwraeth - Hybu bioamrywiaeth ac atal ei ddirywiad;
- Hinsawdd – Pen y daith: Sero Net;
- Cysylltiad - Gwasanaeth Iechyd Naturiol;
- Cymunedau Bywiog – Lleoedd lle gall pobl fyw, gweithio a'u mwynhau.

Roedd cymeradwyo'r strategaeth lefel uchel wedi sbarduno'r angen i adolygu Amcanion Llesiant yr Awdurdod i sicrhau bod yr amcanion a'r blaenoriaethau lefel uchel yn cydweddu i gefnogi bod pob amcan yn cael eu cyflawni'n effeithiol. Ar hyn o bryd roedd gan yr Awdurdod 7 Amcan Llesiant oedd yn cydweddu'n uniongyrchol â phob un o'r 7 Nod Llesiant yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a dim ond mân ddiwygiadau a wnaed i'r amcanion hyn ers iddynt gael eu cytuno yn wreiddiol a'u cyflwyno yn y Cynllun Corfforaethol 2016/17.

Roedd nifer yr Amcanion Llesiant wedi'i ostwng i ganolbwyntio ar bedwar maes allweddol sy'n cydweddu â'r meysydd blaenoriaeth a'r effeithiau a gynhwysir yn y strategaeth lefel uchel. Roedd ystod o ganlyniadau arfaethedig hefyd wedi'u clustnodi yn yr adroddiad ar y strategaeth lefel uchel, ac ystyriwyd sut allai'r canlyniadau hyn helpu'r Awdurdod i flaenoriaethu ei weithgareddau i gyflawni'r Amcanion Llesiant diwygiedig. Yr Amcanion Llesiant diwygiedig arfaethedig oedd:

1. Cadwraeth - Atal y dirywiad a gwella ansawdd, maint a chysylltedd bioamrywiaeth ar raddfa, fel bod natur yn ffynnu yn y Parc.
2. Hinsawdd - Cyflawni Awdurdod carbon niwtral erbyn 2030 a chefnogi'r Parc i gyflawni niwtraliaeth carbon ac addasu i effaith Newid Hinsawdd.
3. Cysylltiad - Creu Parc sy'n Wasanaeth Iechyd Naturiol sy'n cefnogi pobl i fod yn fwy iach, yn fwy hapus ac yn fwy cysylltiedig â'r dirwedd, natur a threftadaeth.
4. Cymunedau - Creu cymunedau bywiog, cynaliadwy a llewyrchus yn y Parc lle gall pobl fyw, gweithio a mwynhau.

Aeth yr adroddiad rhagddo i amlinellu sut fyddai pob un o'r Amcanion llesiant diwygiedig arfaethedig yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at y nodau llesiant; yn gyson â'r pum ffordd o weithio yn ôl yr egwyddor datblygu cynaliadwy; ac wedi ystyried Adroddiad Comisiynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol ar Genedlaethau'r Dyfodol.

Gofynnwyd i'r Aelodau roi sylwadau ar yr Amcanion Llesiant drafft a'u cymeradwyo ar gyfer ymgynghori ehangach, a nodwyd y byddai'r Amcanion diwygiedig yn cael eu nodi yn y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2022/23, ynghyd â datganiad yr Awdurdod ar lesiant, a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i gyflawni ei Amcanion Llesiant. Byddai’r cynllun yn ystyried y ffrâm amser 2022-26 a nodir yn y strategaeth lefel uchel, a hefyd y targedau tymor hwy sy'n ymwneud â datgarboneiddio. Y bwriad oedd y byddai'r cynllun drafft yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod fis Chwefror 2022 i gael eu sylwadau, ac y byddai’r cynllun terfynol a'r Amcanion Llesiant diwygiedig yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod fis Mawrth 2022 i'w cymeradwyo.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cydlynydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth am adroddiad clir oedd yn dangos y cyswllt rhwng yr amcanion â dogfennau allweddol eraill. Roedd yr Aelodau yn gefnogol i'r Amcanion newydd, ond yn meddwl tybed a allent fod yn fwy craff - o ran eu gallu i fesur a pha mor gyraeddadwy oeddent. Hefyd awgrymwyd newidiadau i’r geiriad i roi mwy o fanylder, a dywedodd y Prif Weithredwr y gellid ystyried y rhain fel rhan o'r broses ymgynghori.

O ran Amcan 4 ynghylch creu Cymunedau bywiog, cynaliadwy a llewyrchus, dywedodd un Aelod ei fod yn synnu gweld y troednodyn mai yn Sir Benfro oedd y gyfradd uchaf o dlodi plant yng Nghymru, a gofynnodd a oedd ystadegau ar gael ar gyfer y Parc Cenedlaethol. Atebodd y Prif Weithredwr ei fod yn credu mai dim ond ar gyfer y Sir yn gyfan oedd y wybodaeth ar gael. Roedd Cyngor Sir Penfro yn arwain ar y gwaith o fynd i'r afael â'r broblem oedd yn aml yn gudd mewn ardaloedd cefn gwlad.

Gan droi at yr ymgynghoriad, gofynnodd yr Aelodau am fwy o fanylion, gan awgrymu y byddai angen cymryd gofal o ran y modd yr oedd yr Amcanion yn cael eu cyfleu gan eu bod o’r farn bod rhywfaint o'r iaith yn eithaf biwrocrataidd ac yn anodd i'r cyhoedd ei deall. Nododd y Swyddog y gofynnir am gyngor gan y Tîm Cyfathrebu ar y ffordd orau o oresgyn hyn, tra hefyd yn diwallu gofynion y polisi. Dywedodd y swyddog y byddai'r ymgynghori yn cychwyn yn y flwyddyn newydd pan fyddai gweithgareddau wedi'u targedu yn cael eu cynnal gyda’r cyhoedd, y Cynghorau Cymuned, y Pwyllgor Ieuenctid a’r gwirfoddolwyr.

**Penderfynwyd** cymeradwyo’r fersiwn drafft o’r Amcanion Llesiant ar gyfer ymgynghori ehangach.

**8. Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru**

Dywedwyd bod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi creu’r fframwaith ar gyfer mecanwaith cyson o gydweithio rhanbarthol

rhwng llywodraeth leol, sef Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Byddai’r Cyd-bwyllgorau hyn yn arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio datblygu strategol a chynllunio trafnidiaeth ranbarthol. Byddent hefyd yn gallu gwneud pethau i hybu lles economaidd eu hardaloedd. Yn wahanol i drefniadau cyd-bwyllgorau eraill, roedd y cyd-bwyllgorau hyn yn gyrff corfforedig ar wahân a allai gyflogi staff, dal asedau a chyllidebau, ac ymgymryd â swyddogaethau. Byddai Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn cynnwys Cyngor Sir Caerfyrddin, Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Sir Penfro a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. O ran rhai swyddogaethau, byddai Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog hefyd yn aelodau.

Roedd yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau yn amlygu ffyrdd y gallai'r Cyd-bwyllgor gael ei gyfansoddi er mwyn cwrdd â gofynion deddfwriaethol, ac yn nodi'r trefniadau lleol, a hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth i gynnwys yr APC yn y cyfryw  drefniadau oedd yn berthnasol. Nodwyd bod trafodaethau ynghylch strwythur y corff newydd yn parhau, ac y bydd ei gyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal fis Ionawr 2022. Fodd bynnag, roedd y cyfansoddiad drafft cyfredol yn nodi y gallai Aelodau’r Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ond pleidleisio lle'r oedd y mater i'w benderfynu yn ymwneud â swyddogaethau cynllunio strategol. Ynghyd â chynrychiolwyr APC Bannau Brycheiniog, roedd y swyddogion yn herio'r mater hwn gan eu bod o'r farn y dylai'r Awdurdodau fod yn aelodau llawn o'r Cyd-bwyllgor, yn gallu pleidleisio ar faterion llywodraethu a materion ariannol ynghyd â'r gwaith ar faterion cynllunio.

Er nad oedd yr Aelodau yn arbennig o gefnogol i'r egwyddor o greu Cyd-bwyllgorau Corfforedig, roeddent yn derbyn bod y ddeddfwriaeth i wneud hynny bellach wedi'i phasio a’i bod yn bwysig i'r Awdurdod gymryd ei le wrth y bwrdd. Mynegwyd rhai pryderon bod yr Awdurdod yn gorff bach o ran maint ac o’r herwydd ei allu i gyfrannu'n ariannol pe bai angen yr un cyfraniad â’r prif Gynghorau, yn enwedig gan fod yr adroddiad yn ceisio awdurdod dirprwyedig mewn perthynas â threfniadau ariannol. Dywedodd y swyddogion bod y pwynt hwn eisoes wedi'i wneud, ac er y rhagwelwyd na fyddai angen unrhyw gyfraniad yn 2022/23 o ran paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol, bod swm o £20,000 wedi’i gynnwys yng nghyllideb yr Awdurdod ar gyfer unrhyw gyfraniad fyddai’n ofynnol mewn perthynas â'r Cyd-bwyllgor. Hefyd eglurwyd mai hyn hefyd oedd y lefel o ddirprwyo ar gyfer amrywiadau yn y gyllideb yn ôl Safonau Ariannol yr Awdurdod.

Roedd rhai Aelodau yn parhau i bryderu am y posibilrwydd y bydd y corff newydd yn bygwth annibyniaeth yr Awdurdod.

**Penderfynwyd**:

(a) nodi'r ffrydiau gwaith cyfredol oedd yn gysylltiedig â Chyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru a'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan y swyddogion i hwyluso'r cyfryw waith;
(b) nodi'r bwriad i sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru a'r gwahanol Is-bwyllgorau;
(c) y byddai'r Cadeirydd yn cynrychioli'r Awdurdod ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Pe na bai'r Cadeirydd ar gael yna byddai'r Dirprwy Gadeirydd yn cynrychioli'r Awdurdod;
(d) y byddai'r Dirprwy Gadeirydd yn cynrychioli'r Awdurdod ar y Pwyllgor Cynllunio Strategol;
(d) dirprwyo'r cyfrifoldeb am gytuno ar drefniadau llywodraethu ac ariannol y Cyd-bwyllgor i Gadeirydd yr Awdurdod a'r Prif Weithredwr;
(dd) cymeradwyo'r farn bod yr Awdurdod yn aelod llawn o'r Cyd-bwyllgor, sy'n gallu pleidleisio ar faterion megis llywodraethu a chyllid yn ogystal â materion cynllunio, ac yn cael ei gynrychioli ar yr Is-bwyllgorau perthnasol.

*[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.30 a 11.40am.]*

**9. Parciau Cenedlaethol Cymru: Tirweddau i Bawb: Ein Hymagwedd at Gynhwysiant Cymdeithasol a Thlodi Plant [Diwygiwyd ar gyfer 2021]**

Atgoffwyd yr Aelodau bod Tirweddau i Bawb yn ddatganiad sefyllfa gydag egwyddorion a meysydd blaenoriaeth i arwain ymdrechion Parciau Cenedlaethol Cymru i gyflawni eu dibenion a'u dyletswyddau craidd tra'n diwallu Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a'r Parciau Cenedlaethol fel y nodir yn y ddogfen 'Gwerthfawr a Chydnerth (Gorffennaf 2018).

Roedd Tirweddau i Bawb wedi'i gyhoeddi gyntaf yng ngwanwyn 2020 yn ystod camau cynnar y pandemig covid-19. Daeth y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021. Roedd Parciau Cenedlaethol Cymru wedi cydnabod y byddai angen iddynt fod yn ymatebol gan amlygu effaith y pandemig Covid-19 ac effaith cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, a'r bwriad oedd diwygio'r papur yn 2021. Bellach roedd y ddogfen ddiwygiedig hefyd yn cwmpasu'r meysydd polisi a'r rhaglenni yr ymdriniwyd â hwy yn flaenorol yn y papur Parciau Cenedlaethol Cymru: Law yn Llaw at Iechyd a Llesiant (2016), ac fe'i hatodwyd i'r adroddiad er gwybodaeth i'r Aelodau.

Roedd yr Aelodau o'r farn bod hon yn ddogfen ragorol, oedd yn crynhoi gwaith y Parciau a'r modd y gallent fod yn gynhwysol. Roedd yn hawdd i'w darllen ac yn dangos yn glir y cydweithio amlwg sy'n digwydd rhwng Parciau Cenedlaethol Cymru.

**Nodwyd.**

**10. Ymestyn y Newidiadau Dros Dro yng ngoleuni Effaith Covid 19 i Gynllun yr Awdurdod ar Ddirprwyo**

Atgoffwyd yr Aelodau bod diwygiadau dros dro wedi’u gwneud i Gynllun yr Awdurdod ar Ddirprwyo er mwyn galluogi’r gwasanaeth cynllunio barhau yn ystod y pandemig Covid-19, fel y nodwyd yn yr adroddiad. Roedd y diwygiadau dros dro wedi’u cynnig yn wreiddiol fis Mai 2020, ac yn fwyaf diweddar wedi’u hail-gadarnhau fis Mehefin 2021; gofynnwyd yn awr am estyniad pellach dros dro tan 31 Rhagfyr 2022.

Er bod y rhan fwyaf o'r Aelodau yn hapus i gefnogi cyfnod pellach o’r diwygiadau dros dro i ddirprwyo, dywedodd eraill bod y cynigion wedi'u cyflwyno fel mesur dros dro a'u bod yn ofni bod yr Awdurdod yn ddiarwybod ar y ffordd o’u gwneud yn barhaol a bod yr amser bellach wedi dod i ddychwelyd i'r trefniadau blaenorol. Awgrymwyd nad oedd cymunedau yn cael gwrandawiad teg os yw ceisiadau yn cael eu dirprwyo pan fo barn Cynghorau Cymuned yn groes i farn y swyddogion ac nad oedd cynrychiolwyr felly yn gallu annerch y Pwyllgor.

Nodwyd bod angen cytundeb Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar ddirprwyo.

**Penderfynwyd** bod y cynllun dirprwyo o ran y gwasanaeth cynllunio yn cael ei ymestyn dros dro tan 31 Rhagfyr 2022.

**11. Aelodaeth o Fforwm Mynediad Lleol Sir Benfro**

Dywedwyd bod Fforwm Mynediad Lleol Sir Benfro yn gorff statudol, a sefydlwyd ar y cyd gan Gyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro fis Mehefin 2002, i roi cyngor ar wella mynediad i’r cyhoedd i gefn gwlad.

Rôl a swyddogaeth statudol y Fforwm oedd cynghori'r Cyngor Sir, yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru ar wella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad at ddibenion hamdden a mwynhad yn yr awyr agored. Roedd y Fforwm yn cyfarfod yn gyhoeddus bob chwarter ac roedd ei aelodaeth yn gytbwys i amlygu pryderon ffermwyr lleol a rheolwyr tir, yn ogystal â buddiannau defnyddwyr hamdden yng nghefn gwlad.

Yn unol â’r rheoliadau statudol sy’n llywodraethu sefydlu a gweinyddu Fforymau Mynediad Lleol, roedd yn ofynnol i'r awdurdodau penodi gynnal adolygiad o aelodaeth y Fforwm bob tair blynedd, a gofynnwyd am enwebiadau am Aelod o'r Awdurdod i wasanaethu ar Fforwm Mynediad Lleol Sir Benfro am y tymor nesaf o dair blynedd (2022-24).

Dywedodd y Cynghorydd P Harries ei fod wedi cynrychioli'r Awdurdod ar y Fforwm ers 2012 a'i fod yn llawn sylweddoli gwerth y fforwm o ran

caniatáu i faterion anodd gael eu trafod a'u datrys. Cynigiwyd ac eiliwyd bod y Cynghorydd P Harries yn cael ei enwebu unwaith eto i gynrychioli'r Awdurdod, a mynegodd ei barodrwydd i wneud hynny.

**Penderfynwyd** bod y Cynghorydd P Harries yn cael ei benodi i wasanaethu fel cynrychiolydd yr Awdurdod ar Fforwm Mynediad Lleol Sir Benfro am y cyfnod 2022-2024.

**12. Y Pwyllgor Adolygu Gweithredol: Cylch Gorchwyl**

Dywedwyd bod Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod, fel rhan o'u rhaglen waith am y flwyddyn 2021/22, wedi cynnal Adolygiad Sicrwydd Rheoli Risg, ac roedd yr Aelodau wedi ystyried yr Adolygiad hwn mewn Gweithdy ar yr 17eg o Dachwedd 2021.

Roedd yr Adolygiad wedi nodi bod dau Bwyllgor, sef y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol, yn adolygu'r gofrestr risg ar hyn o bryd. Roedd yr Archwilwyr Mewnol o'r farn bod hyn nid yn unig yn dyblygu ymdrech, ond gallai arwain at wahanol safbwyntiau a chanlyniadau, gan arwain at sefyllfaoedd anodd o ran rheoli a diweddaru'r gofrestr risg. Argymhelliad yr Archwilwyr felly oedd mai dim ond un Pwyllgor ddylai adolygu'r gofrestr risg, ond y dylai'r Awdurdod gael golwg ar yr adolygiad o leiaf ddwy waith y flwyddyn.

Roedd yr Aelodau oedd yn bresennol yn y gweithdy rheoli risg ar yr 17eg o Dachwedd wedi cytuno mai hyn ddylai fod y ffordd ymlaen, ac o'r farn mai’r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol ddylai fod y cyfrwng i wneud hynny. Felly byddai angen diwygio Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Adolygu Gweithredol i amlygu’r newid hwn.

**Penderfynwyd** bod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Adolygu Gweithredol yn cael ei ddiwygio drwy ddileu'r cyfeiriad at ystyried Cofrestr Risg yr Awdurdod i amlygu argymhelliad Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod.

**13. Partneriaeth y Parciau Cenedlaethol a Thîm Cyfathrebu Parciau Cenedlaethol y DU**

Atgoffwyd yr Aelodau bod y 15 Awdurdod Parc Cenedlaethol sydd yng Nghymru, yr Alban a Lloegr wedi dod at ei gilydd yn 2016 i sefydlu Partneriaeth Parciau Cenedlaethol, sef Cwmni Atebolrwydd Cyfyngedig i sicrhau cyllid o ffynonellau corfforedig a ffynonellau eraill i gefnogi eu gwaith.

Er mai bwriad gwreiddiol y Bartneriaeth oedd sicrhau cyfraniadau arian parod, daeth yn amlwg bod gan fwyafrif y cwmnïau naill ai ddiddordeb mewn rhoi cymorth mewn-da neu drwy roi rhoddion i elusen. Roedd hyn wedi creu anhawster i sicrhau incwm digonol i dalu costau rhedeg y Bartneriaeth. Oherwydd hynny, yn 2018 roedd y 15 APC wedi cytuno i

newid y model o gyllido’r Bartneriaeth drwy wneud cyfraniad blynyddol o £10,000 y flwyddyn i dalu’r costau rhedeg am gyfnod o dair blynedd. Yn ogystal, cytunodd 9 o'r APC i sefydlu corff elusennol i gefnogi'r gwaith hwn o godi arian, o'r enw Sefydliad Parciau Cenedlaethol y DU. Roedd yr Awdurdod wedi cefnogi’r ddau benderfyniad hyn yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar y 7fed o Chwefror 2018.

Ers hynny roedd yr Awdurdod wedi elwa o roddion arian parod o £39,776 a chymorth mewn-da o £87,348 gan wneud cyfanswm y cymorth i £127,124.

Un o'r anawsterau a wynebai’r Bartneriaeth oedd bod darpar gefnogwyr a rhoddwyr yn dymuno delio ag un sefydliad yn hytrach na 15 o wahanol APC. Roedd hefyd yn anodd dangos effaith gyfunol y gwaith oherwydd gwahanol flaenoriaethau a ffyrdd o weithio yn yr APC. I ymateb i hyn cafodd Tîm Cyfathrebu i gyflwyno cyfathrebiadau ar draws Parciau Cenedlaethol y DU ei sefydlu yn 2019. Yn dilyn proses dendro gystadleuol roedd y tîm wedi’i leoli yn Awdurdod y Broads.

Dros y tair blynedd nesaf cynigiwyd bod y model cymorth presennol yn parhau, yn amodol ar un newid bod Prif Weithredwr Arweiniol APC dros Gyfathrebu, sef Awdurdod y Broads ar hyn o bryd, yn ymuno â Bwrdd y Bartneriaeth, ac roedd un dudalen o grynodeb o'r Cynllun Busnes hwn wedi'i atodi i'r adroddiad.

Roedd y swyddogion o'r farn bod y Bartneriaeth yn gweithio ar raddfa na allai'r Awdurdod hwn ei gyrchu ar ei ben ei hun, a bod gweithgareddau codi arian mewnol a lleol Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a’r Bartneriaeth yn ategu ei gilydd. Hefyd roedd Tîm Cyfathrebu APC y DU yn ategu gwaith y Bartneriaeth ac yn cyfrannu at roi dulliau unedig i Barciau Cenedlaethol y DU lle bo hynny'n briodol ac yn fuddiol.

Yr argymhelliad felly oedd bod yr Awdurdod, dros y tair blynedd nesaf, yn cyfrannu £10,000 y flwyddyn i gefnogi gwaith y Bartneriaeth a swm cynyddol gan ddechrau gyda chyfraniad blwyddyn 1 o £8,067, cyfraniad blwyddyn 2 o £8,228 a chyfraniad blwyddyn 3 o £8,339 i gefnogi gwaith Cyfathrebu Parciau Cenedlaethol y DU.

Mynegodd y Cadeirydd ei gefnogaeth i'r cymorth ariannol parhaus hwn i’r dyfodol, ac adleisiwyd hyn gan yr Aelodau eraill. Roedd un cwestiwn ynghylch y datganiad ar yr Iaith Gymraeg, ac eglurodd y Prif Weithredwr, er nad oedd y Bartneriaeth yn dod o fewn cylch gwaith Safonau Cymraeg yr Awdurdod, byddai unrhyw gyllid neu gyfleoedd yn ymwneud â Chymru yn cael eu darparu yn unol â'r Safonau.

**Penderfynwyd** cefnogi gwaith y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol a'r Tîm Cyfathrebu Parciau Cenedlaethol y DU am y cyfnod 2022-2025 fel y nodwyd yn yr adroddiad.

[Cyflwynodd y Cynghorwyr P Baker a M James eu hymddiheuriadau a gadael y cyfarfod yn ystod y cyflwyniad canlynol.]

**14. Cyflwyniad gan Croeso Sir Benfro**

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i'r cyfarfod i Emma Thornton, Prif Weithredwr Croeso Sir Benfro, a roddodd drosolwg o waith y sefydliad yn ystod ei flwyddyn gyntaf.

Atgoffodd yr Aelodau mai Croeso Sir Benfro oedd y Sefydliad Rheoli Cyrchfan (SRhC) swyddogol ar gyfer Sir Benfro ac fe'i lansiwyd fis Tachwedd 2020 fel partneriaeth a arweinir gan fusnesau sy'n canolbwyntio ar dyfu twristiaeth gynaliadwy er budd pawb.

Roedd ei chyflwyniad yn amlygu rhai o weithgareddau a chyflawniadau'r sefydliad dros y flwyddyn flaenorol, a'r hyn yr oedd ei weithgareddau marchnata wedi ceisio ei gyflawni. Rhan sylweddol o hyn oedd datblygu Brand Sir Benfro, ac eglurodd eu bod yn parhau i adeiladu ar hyn drwy eu gwefan a bod ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd cylchlythyr e-bost misol hefyd wedi'i ddatblygu, a manteisiwyd ar gyfleoedd hefyd i hyrwyddo'r sir drwy'r wasg teithio.

Daeth y cyflwyniad i ben drwy sôn am flaenoriaethau'r sefydliad ar gyfer y flwyddyn i ddod a'r hyn a ystyriwyd yn ffactorau llwyddiant hanfodol ar gyfer y tymor hwy.

Gan ddiolch iddi am y cyflwyniad, dechreuodd y Cadeirydd drwy holi Ms Thornton am ddefnydd y sefydliad o'r Gymraeg fel rhan o bwynt gwerthu unigryw'r sir. Dywedodd bod y wefan yn ddwyieithog, ond roedd hefyd yn cydnabod y gellid gwneud mwy i dynnu sylw at y Gymraeg yn y deunydd marchnata drwy weithio gyda phartneriaid. Awgrymodd Aelod arall y dylid defnyddio sain, caneuon a chlipiau fideo, a chytunodd y byddai creu cynnwys o'r fath yn arwain at fwy o ymgysylltu a phrofiad mwy dilys, ac y gallai'r rhain fod yn rhan o'r pecyn cymorth brandio.

Roedd cwestiwn arall yn ymwneud â datblygu model twristiaeth gynaliadwy ar gyfer y sir, a chytunodd bod hyn yn gydbwysedd anodd, ond barnai bod angen cael marchnata tactegol i ddenu'r math cywir o ymwelwyr a chadw'r ardal yn atyniad arbennig. Roedd y sefydliad wedi cysylltu llawer o'r gwaith marchnata dros yr haf ag ymgyrch Troedio'n Ysgafn yr Awdurdod, ac y byddai ei Gynllun Marchnata Cyrchfan yn parhau i gael ei adolygu er mwyn helpu i reoli ymwelwyr yn well.

Holodd Aelod arall ynglŷn ag ariannu'r sefydliad yn y tymor hir ac ymgysylltu â'r cymunedau lleol. Cyfeiriodd Ms Thornton at ymchwil yn Lloegr ar y ffactorau llwyddiant critigol ar gyfer Sefydliadau Rheoli Cyrchfan sy'n perfformio'n dda a ddaeth i'r casgliad bod angen ymrwymiad gan y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Roedd Croeso Sir Benfro wedi sicrhau ymrwymiad pum mlynedd gan y sector cyhoeddus, a'r dasg yn awr oedd tyfu cyfraniad y sector preifat. Dywedodd, fel rhan o'i ddiben cyhoeddus, bod Croeso Sir Benfro wedi ymrwymo i hyrwyddo pob busnes yn Sir Benfro p'un a oeddent yn aelodau o'r sefydliad neu beidio. Fodd bynnag roedd angen datblygu gwell cyfleoedd i'r rhai oedd yn cefnogi'r sefydliad yn ariannol, ac nid oedd hyn yn hawdd cael cydbwysedd. Ei gobaith oedd y byddai cyllid cenedlaethol ar gael yn y tymor hwy. Ar hyn o bryd roedd y gwaith o ymgysylltu â'r gymuned yn canolbwyntio ar berthynas y sefydliad â Planed, ond roedd rhywfaint o gysylltu wedi'i wneud â Chynghorau Tref a Chymuned ac y byddent yn cael eu gwahodd i ddigwyddiad y flwyddyn nesaf i'w helpu i ddeall sut y gallent chwarae mwy o ran yng ngwaith y sefydliad.

**Nodwyd.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2022 heb eu diwygio. |